**COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF ABERAERON A GYNHALIWYD AR NOS FAWRTH MAWRTH 10fed 2026 AM 7.00yh YN NEUADD GOFFA ABERAERON**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Tim Archer (Cadeirydd); Y Cynghorwyr Phillip Davies, Rhys Davies, Darryl Evans, Elizabeth Evans, Lloyd Garvey, Rhodri Jones ac Agnieszka Kalinowsza.
Mr Denfer Morgan – Clerc y Cyngor.

**711. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Aled Davies a Diana Mace.

**712. DATGELU BUDDIANT PERSONOL AC UN SY'N RHAGFARNU**

Datgelodd y Cynghorwyr Lloyd Garvey a Rhodri Jones fuddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yng nghais cynllunio A260106 a gyfeiriwyd ato yng nghofnod 716b) isod gan adael yr ystafell yn ystod y drafodaeth.
Datganodd y Cynghorydd Elizabeth Evans ei bod wedi derbyn gollyngiad gan Bwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion er mwyn siarad a phleidleisio ar faterion ynghylch Pwll Nofio Aberaeron fel y nodwyd yng nghofnod 718.

**713. CADARNHAD COFNODION Y CYFARFOD MISOL AR CHWEFROR 10fed 2026**

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod misol ar Chwefror 10fed 2026 yn gywir, yn amodol ar gywiro'r cyfeiriad at 'xxxx' yng nghofnod 697 i '703'.

**714. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Cofnod 699 - trafodaethau gyda Chlwb Pêl-droed Aberaeron: Datganodd y Cynghorydd Elizabeth Evans ei bod wedi trafod y sefyllfa gyda chynrychiolydd y Clwb Pêl-droed ac y byddai'r Clwb yn cymryd camau i gwblhau trwydded y Cae Sgwâr.
Cofnod 699 - anghenion storio - Atgoffwyd yr Aelodau i ddarparu'r Clerc gyda manylion cyfarpar y Cyngor a gadwyd ganddynt er mwyn cynhyrchu rhestr eiddo er mwyn adnabod anghenion storio.

**715. MATERION CYLLID**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r taliadau canlynol:

| Anfoneb | Cyfanswm |
|---|---|
| SSE (Goleuadau Bro yr Hafan (chwarter Rhag-Chwef) | £317.52 |
| SSE (Goleuadau Pen Cei -chwarter Rhag-Chwef) | £277.25 |
| *Cyflog y Clerc (Chwarter 4 – Ion-Chwe-Maw)* | |
| Denfer Morgan | £1,517.36 |
| HMRC (PAYE) | £379.34 |
| Costau gweinyddol y Clerc (12 mis) | £127.99 |

**716. MATERION CYNLLUNIO**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

a) Ceisiadau A260099/100 - 2 Heol y Frenhines, Aberaeron. Estyniad arfaethedig a newidiadau.
**Penderfyniad:** dim gwrthwynebiad.

**b)** A260106 - Tremle, Stryd y Fro, Aberaeron. Annedd newydd.
**Penderfyniad:** dim gwrthwynebiad.

## 717. MATERION TIR Y CYNGOR

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

**a) Cae Sgwâr:**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol ar gyfer defnydd y Cae, a nodwyd a chofnodwyd y penderfyniadau canlynol:

**Syrcas Peregrine Circus:** rhoddwyd ystyriaeth bellach i'r cais yma yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd. Roedd sawl Aelod yn dal o'r farn y byddai'n well i'w leoli ar gyrion y dref ar gyfer digwyddiad o'r fath, fel mewn trefi eraill. Teimlwyd bod y Cae, ynghanol y dref a gydag aneddau preswyl ar ddwy ochr, yn anaddas ar gyfer lleoli carafanau am sawl diwrnod, ac y byddai safle ar gyrion y dref yn darparu gwell cyfleusterau parcio ar gyfer y rhai'n mynychu'r syrcas.

**PENDERFYNWYD** peidio cytuno i'r cais am y rhesymau uchod, ac awgrymu eto y dylai'r ymgeisydd ystyried gofyn i'r Clwb Rygbi os ellid defnyddio'r caeau hynny.

**Gêm derfynol Cynghrair Costcutter Ceredigion**: cymeradwyo defnydd y Cae ar Ddydd Llun y Pasg Ebrill 6$^{ed}$.

b) **Banc Bach:** cytunwyd i ddilyn fyny gosodiad ffens drydan ar hyd adran o'r llwybr gerllaw.

## 718. PWLL NOFIO ABERAERON A'R CYLCH

Rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

a) **2025-26 Cymorth ariannol**: nodwyd y wybodaeth ariannol ddiweddaraf a dderbyniwyd gan Bwyllgor Rheoli'r Pwll Nofio, a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo taliad mis Mawrth o £1,400.

b) **2026-27 diweddariad**: Datganodd y Cynghorydd Elizabeth Evans fod materion yn mynd yn eu blaen ynghylch y newidiadau yn yr ariannu'r cyflenwad trydan ar gyfer y Pwll Nofio.

## 719. DIWEDDARIAD PROSIECT DIGIDOL

a) Adroddwyd ar y data a gasglwyd, a'i drafod a'i nodi.

b) Nodwyd bod y man lluniau yn cael ei storio gan y gwneuthurwyr, a thrafod gyda'r Clwb Rygbi os fyddai'n cytuno i'r safle ar gyfer cyfnod dros dro.

c) Sensoriaid: cytunwyd i osod cyfrifydd pobl LoRaWAN ar un glwyd ym maes chwarae Parc-y-Fro i'r cyfanswm £462.96.

**720. MATERION YR HARBWR**

Rhoddwyd ystyriaeth i ddiweddariad gan y Cynghorydd Elizabeth Evans ar sawl mater.

Carthwyd y banc graean, ond roedd wedi ail-ymddangos.

Roedd hi wedi gwneud cynrychiolaeth yn dilyn penderfyniad y Cyngor Sir i ganslo cyfarfod nesaf y Pwyllgor Defnyddwyr yr Harbwr gan ei fod o fewn cyfnod cyn-etholiad a weithredwyd gan y Cyngor.

**721. CYNLLUN GRANT TREFI TACLUS**

Cynghorodd y Clerc fod trefniadau yn mynd yn eu blaen i drafod cynigion ar gyfer gosod twbâu blodau, golchi pwerus arwyneb ac adnewyddu meinciau gydag Awdurdod Priffyrdd y Cyngor a'r Asiantaeth Briffyrdd, yn ôl y gofyn gan Gynnal y Cardi.

**722. POLISI CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Maer, y Dirprwy Faer a'r Clerc yn gweithredu polisi.

**723. DYFYNBRISIAU AR GYFER GWASANAETHAU'R CYNGOR**

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:-

i) **Cytundeb torri gwair tair blynedd:** Derbyn y dyfynbris a dderbyniwyd gan Dylan Jones ar gyfer torri gwair yn y Cae Sgwâr, Parc-y-Fro ac ardaloedd gwyrdd y dref ar gyfer y tair blynedd nesaf yn ôl y symiau isod. Cynghorodd y Clerc fod y prisiau ar gyfer 2026-27 o fewn y ddarpariaeth yn y cyllid a byddai ariannu addas ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol.

| Blwyddyn | Cae Sgwâr | Parc-y-Fro | Mannau Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| 2026-27 | £3,640 | £2,640 | £2,400 |
| 2027-28 | £3,830 | £2,730 | £2,400 |
| 2028-29 | £4,060 | £2,890 | £2,400 |

ii) **Cytundeb glanhau'r strydoedd 2026-27:** Gofyn i'r Clerc i wneud trefniadau i hysbysebu'r cytundeb ar gyfer darparu gwasanaeth glanhau'r strydoedd 2026-27 Mai 1$^{af}$ 2026 ac ymestyn y cytundeb cyfredol tan Ebrill 30$^{ain}$.

**724. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR ELIZABETH EVANS**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir Elizabeth Evans at y materion canlynol:-

- Archwiliwyd y ffordd tuag at yr aneddau yn Allt-y-graig yn rheolaidd ar gyfer ymsuddiant
- Nid oedd Heol y Dŵr wedi derbyn blaenoriaeth yn y rhaglen tyllau ffordd

- Deliwyd gyda fandaliaeth i'r toiledau, ond nid oedd dyddiad ar gyfer ail-agor toiledau Lôn y Castell
- Penodwyd Rhingyll newydd ar gyfer y dref, a gwnaethpwyd cais am fwy o gyfathrebu gyda'r Cyngor
- Roedd gwaith yn digwydd i wella llwybr yr arfordir i'r de o Draeth y De
- Gwnaethpwyd cais i gynyddu plismona cerbydau a barciwyd ar y cwrbiau isel yn dilyn dau ddigwyddiad ac anafiadau
- Adnabuwyd y person a ollyngodd sbwriel yn Lôn y Castell a deliwyd gyda hyn.

**725. UNRHYW FATER ARALL**

a) Cerflun y Cob: cyfeiriwyd at gynnig gan Ray Ceredigion i orchuddio'r cerflun gyda sgwarau gwlân fel rhan o'u dathliadau ym mis Awst, a gofynnwyd i'r Clerc i ofyn am fwy o wybodaeth.

b) Y Twr ar y Cei: gofynnwyd i'r Clerc i ymchwilio ynghylch perchnogaeth y Twr er mwyn trefnu trwsio'r grisiau metel yn fuan.

Gorffennwyd y cyfarfod am 8.45yh.